

RHEOLWR CYNHYRCHU CYNORTHWYOL

Mae Theatr y Sherman yn cynhyrchu fersiwn deithiol newydd o Macbeth a fydd yn ymarfer ac yn agor yn Theatr y Sherman, Caerdydd, ac yna'n teithio i dri lleoliad partner (Theatr Torch – Aberdaugleddau, Theatr Clwyd – yr Wyddgrug, a Pontio – Bangor).

Mae **Macbeth [re]imagined** yn rhan o fenter Craidd Cyngor Celfyddydau Cymru i brif-ffrydio cynrychiolaeth gyda ac ar gyfer pobl Fyddar, anabl a niwrowahanol ledled Cymru. Mae hefyd yn ceisio gyrru newid cadarnhaol yn y sefydliadau partner dan sylw, yn ogystal ag yn sector ehangach y theatr.

Mae'r cynhyrchiad yn cynnwys cast o 8. Suzy Somerville yw'r Rheolwr Cynhyrchu.

DYDDIADAU

Yn ystod y cyfnod cyn-gynhyrchu ac ymarferion i fod ar gael (o gwmpas ymrwymadau eraill) i gefnogi'r rheolwr cynhyrchu yn ôl yr angen. Disgwylir y bydd yn cyfateb i'r canlynol ar y mwyaf

CYN-GYNHYRCHU

Rhagfyr 2026

2 ddiwrnod

Ionawr 2027 (cyn yr ymarferion) 2 ddiwrnod

Cyfnod ymarfer

18 Ionawr – 19 Chwefror 2 ddiwrnod yr wythnos
i'w gadarnhau

LLAWN AMSER AR Y SAFLE

15 Chwefror – 12 Mawrth

DYDDIADAU TEITHIO

Datgymalu a Gadael Theatr y Sherman Dydd Mawrth 30 Mawrth

Cyrraedd a Gosod Theatr Torch

Dydd Llun 5 Ebrill a dydd Mawrth 6 Ebrill

Theatr Torch

Datgymalu a Gadael Dydd Sul 18 Ebrill

Cyrraedd a Gosod Theatr Clwyd
Ebrill

Dydd Llun 19 Ebrill a dydd Mawrth 20

Datgymalu a Gadael Theatr Clwyd

Ar ôl y perfformiad hwyr nos Sadwrn 1 Mai

Cyrraedd a Gosod Pontio

Dydd Llun 3 Mai a dydd Mawrth 4 Mai

Datgymalu a Gadael Pontio

Dydd Sul 16 Mai

Y TÎM CREADIGOL

Cyfarwyddwr	Francesca Goodridge
Golygfeydd a Deialog Ychwanegol	Rebecca Jade Hammond
Cyfarwyddwr Cyswllt	Alice Eklund
Dramatwrg	Rebecca Jade Hammond
Cyfarwyddwr Symud	Jess Williams
Cynllunydd Set a Gwisgoedd	Hayley Grindle
Cynllunydd Goleuo	Ryan Joseph Stafford
Cynllunydd Fideo a Chapsiynau Creadigol	Ben Glover
Cyfansoddwr	Lloyd Coleman
Cynllunydd Sain	Russell Ditchfield

STAFF CYNHYRCHU

Rheolwr Cynhyrchu
Rheolwr Cynhyrchu
Cynorthwyol
Ailoleuwr/Goleuwr
Cynhyrchiad
Peiriannydd Fideo x2

TÎM TEITHIO

Rheolwr Llwyfan y Cwmni
Dirprwy Rheolwr Llwyfan
Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol
Rheolwr Llwyfan Technegol
Cynorthwyol (Pwyslais Sain)
Pennaeth Fideo
Gweithredwr Capsiynau
Pennaeth Sain
Cynorthwydd Technegol
Rheolwr Gwisgoedd

Manylion y Rôl:

Bydd y Rheolwr Cynhyrchu Cynorthwyol yn cefnogi'r rheolwr cynhyrchu drwy'r broses gynllunio ac ymarfer; mae'r dyletswyddau'n cynnwys (ymhlith eraill)

- Cael dyfynbrisiau ar gyfer llogi a phrynu
- Cefnogi'r holl adrannau gyda gweinyddiaeth ac ymchwil y Llyfr Gwyrdd
- Cefnogi'r holl adrannau gyda logisteg ar gyfer derbyn nwyddau ac ati
- Trefniadau ymarferol derbyn y bwth mynediad

Yn ystod y cyfnod ffitio ac ymarferion technegol, disgwylir y bydd y Rheolwr Cynhyrchu a'r Rheolwr Cynhyrchu Cynorthwyol yn rhannu sifftiau er mwyn rheoli oriau. Mae cyfrifoldebau yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

- Y criw rhedeg
- Sierhau bod y nodiadau wedi'u cwblhau
- Archebu a siopa
- Cynllunio ar gyfer y daith (pacio cerbyd, logisteg ac ati)
- Cynnal amserlen ac asesiadau risg

Ar gyfer y Datgymalu a Gadael, bydd y Rheolwr Cynhyrchu Cynorthwyol yn gyfrifol am y datgymalu a gadael golygfaol ac am oruchwylio holl elfennau'r datgymalu a gadael.

Bydd y Rheolwr Cynhyrchu Cynorthwyol yn cadw at holl bolisiâu a gweithdrefnau'r Sherman a'u rheolwr llinell fydd Mandy Ivory-Castile (Pennaeth Cynhyrchu, Theatr y Sherman).